Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Morfa Rhianedd

**Ffordd Cwm**
**Llandudno**
**Conwy**
**LL30 1EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Morfa Rhianedd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Morfa Rhianedd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 152 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 133 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 19 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 30.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 24.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/04/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/01/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/03/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Morfa Rhianedd yn gymuned gefnogol, sy'n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith clòs yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy'n meithrin awyrgylch o ddysgu effeithiol ac ymdeimlad cyson o berthyn i deulu'r ysgol. Mae'r cymorth i hybu dysgu a lles disgyblion, a gallu'r disgyblion i ddefnyddio'r gefnogaeth hon, yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at gefnogi disgyblion i ddatblygu agweddau cadarn at eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau'n synhwyrol a diddorol sy'n hybu'r dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymestyn profiadau dysgu i ddisgyblion yn yr awyr agored yn fwriadus ac yn canolbwyntio ar ddatblygu eu medrau trwy weithgareddau difyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando, siarad, darllen, rhifedd a digidol pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. At ei gilydd, nid yw ansawdd adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn grefftus ac yn cefnogi'r staff i sicrhau bod dysgu a lles disgyblion yn flaenoriaethau cyson. Mae hyn yn ganolog i'w weledigaeth uchelgeisiol. Mae'n gweithio'n ddiwyd gyda'r staff a'r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli â rhieni. Er hynny, daeth yr arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch am safle'r ysgol i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn effeithiol gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd a chywrain. Mae gweithgareddau monitro'r ysgol yn arwain at gynlluniau gwella perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi cynhwysfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r pryder am ddiogelwch safle'r ysgol a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig

A3 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n is na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygu a'u hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau'n dda ac yn gwella'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn frwdfrydig i gyflwyniadau. Mae medrau llafar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu'r gallu i sgwrsio'n annibynnol, er enghraifft wrth greu map stori ar fywydau gwrachod dychmygol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau llafar Cymraeg effeithiol ac maent yn ymfalchïo yn eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio Saesneg yn hyderus gyda geirfa a phatrymau iaith cywir. O ganlyniad, mae disgyblion yn cyfathrebu'n llwyddiannus ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus o'u mannau cychwyn. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus gan egluro'r cynnwys yn synhwyrol. Wrth i ddisgyblion symud dryw'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais yn dda ac yn defnyddio atalnodi yn gywir a deallus. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i gymharu ac adeiladu pontydd ar gyfer y cawr Bendigeidfran.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod eang o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth gofnodi ffeithiau am draddodiadau'r Hen Galan. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn briodol ac yn dangos gafael gyson ar gywair iaith a pharagraffu wrth ysgrifennu'n estynedig. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn addasu eu harddull i wahanol destunau yn foddhaol, er enghraifft wrth ddwyn i gof ac ysgrifennu am chwedlau'r Mabinogion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn systematig a chyson wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau rhifedd. Yn y dosbarth derbyn, mae gan lawer

o ddisgyblion afael da ar ffeithiau rhif hyd at 20, ac ym Mlwyddyn 2, mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio arian yn y siop flodau. Yn ogystal, maent yn disgrifio nodweddion a phriodweddau siapiau 3D yn gywir wrth adeiladu cestyll. Erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfesurynnau yn hyderus i greu lluniau o gymeriadau chwedlonol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o amrywiaeth dda o gysyniadau mathemategol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn effeithiol. Maent yn mewngofnodi’n hyderus ar lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn rhaglennu robotau electronig yn hyderus i ddilyn llwybrau penodol. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o feddalwedd addysgol, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau codio i ddilyn taith gwenynen o un blodyn i’r llall. Mae rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â’r offer a’r meddalwedd mwyaf effeithiol i’w hystyried at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o raglenni cyflwyno gwybodaeth yn dda, er enghraifft wrth greu podlediadau diddorol am hanes Y Fari Lwyd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu basdata a thaenlenni yn fedrus i gymharu niferoedd a rhywogaethau adar yn yr ardal leol, er enghraifft.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu celf mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, mae’r disgyblion yn cydweithio’n effeithiol i efelychu gwaith celf nifer o arlunwyr Cymreig. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft wrth greu dawnsfeydd cyfoes.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ethos cyfeillgar a chartrefol yn bodoli yn yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn gwrtais a pharchus. Ar draws yr ysgol, maent yn groesawgar ac yn fodlon trafod agweddau o fywyd ysgol gydag oedolion yn bwrpasol. Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus o fewn cymuned ofalgar a chynhwysol yr ysgol. Maent yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn ymateb yn brydlon pan fydd ganddynt bryderon neu angen cefnogaeth. Mae’r disgyblion yn falch o’r cyfleoedd amrywiol maent yn eu derbyn a’u cyflawniadau, er enghraifft wrth ganu mewn cartref preswyl yn yr ardal leol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n ddiogel wrth ddefnyddio’r we. Maent yn trafod pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a pheryglon datgelu gwybodaeth bersonol yn aeddfed. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth.

Mae’r rhan fwyaf o aelodau grwpiau yn falch o’u rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Mae’r cynrychiolwyr yn gweithio’n frwdfrydig ar amrywiaeth o weithgareddau ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae’r cyngor ysgol wedi anfon llythyr at rieni i’w hannog i sicrhau prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd eu plant yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu’r ysgol ar amser ac yn gyson.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw’r meddwl a’r corff yn iach. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i drafod eu teimladau’n ddyddiol ac maent yn defnyddio ardaloedd pwrpasol o fewn y dosbarthiadau ac ardaloedd yr ‘Hwb’, y ‘Clwb Dwdlo’ a’r ‘Den Distaw’ i hybu eu hagweddau tuag at eu dysgu yn effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol ac yn gwneud dewisiadau iach yn gyson. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amseroedd egwyl, a thrwy fynychu clybiau a gweithgareddau allgyrsiol. Yn ogystal, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn deall pwysigrwydd cadw’n iach, er enghraifft wrth gwblhau heriau calendrau adfent y llysgenhadon lles.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werthoedd a systemau gwobrwyo’r ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Maent yn dangos gofal at eu cyfoedion sy’n ategu’r naws deuluol ar draws yr ysgol. Maent yn mwynhau ac yn ymroi i’w tasgau gyda chyffro a brwdfrydedd, yn enwedig yn ystod gweithgareddau ymarferol a chreadigol wythnosol. Mae’r sesiynau hyn yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu medrau cydweithio, ymchwilio a meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae llawer yn dangos dyfalbarhad yn eu dysgu ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd sy’n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol a chreadigol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth ystyrlon o’u hawliau, er enghraifft trwy ddysgu am hawl y mis mewn gwasanaethau. Maent hefyd wedi cyfrannu bwydydd a chynnyrch amrywiol i’r banc bwyd lleol. Mae’r mentrau hyn yn eu helpu i ddatblygu’n ddinasyddion moesegol a chyfrifol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarn i gyfleoedd i gyd-gynllunio a dylanwadu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Er enghraifft, maent yn rhannu eu dyheadau wrth gyfrannu at fapiau meddwl ar ddechrau themâu tymhorol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddiddordeb ac agweddau cadarnhaol wrth ymgysylltu â'u dysgu. Er hynny, ar adegau, mae llawer o ddisgyblion yn or-ddibynnol ar gyfarwyddyd athrawon ac nid ydynt yn ddigon hyderus i wneud penderfyniadau am sut i drefnu a chyflwyno’u gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion yn trafod eu gwaith a dysgu blaenorol yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen dros eu gwaith ac yn ymateb yn addas i adborth ac yn gwella rhai agweddau o’u gwaith. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob tro’n ymwybodol o’r camau nesaf yn eu dysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy’n hyrwyddo diddordeb disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymweld â’r ardal leol fel Plas Mawr a thŷ o’r cyfnod Tuduraidd yng Nghonwy. O ganlyniad, mae

disgyblion yn awyddus i rannu eu profiadau ag eraill am yr ardal leol, eu tref a thu hwnt.

Mae athrawon yn annog disgyblion i rannu eu barn yn bwrpasol am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Maent yn croesawu syniadau'r disgyblion ar ddechrau ac yn ystod themâu yn effeithiol. Maent yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau disgyblion wrth gynllunio'n drwyadl i wella eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn defnyddio'u hawgrymiadau yn effeithiol wrth baratoi gweithgareddau; er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn adeiladu model o eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi ar ôl trafod hanes Dewi Sant.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth ofalus i amrywiaeth a digwyddiadau byd-eang. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod eu syniadau'n frwdfrydig i newid y byd trwy greu ap i leihau gwastraff bwyd. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i gyfleu hanes Gelert gan ddefnyddio sialc ar wyneb yr iard ar ffurf map stori, a chreu animeiddiad o stori Branwen. Yn ogystal, mae'r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu a siarad Cymraeg yn lwyddiannus gyda'r disgyblion. Mae'r staff yn cymell, cefnogi disgyblion i gyfathrebu ac ymateb yn y Gymraeg yn rheolaidd.

Ar y cyfan, mae medrau addysgu'r staff yn gadarn. Yn y sesiynau mwyaf effeithiol, mae athrawon yn herio disgyblion yn gyson i gyflawni hyd orau eu gallu. Lle mae'r disgwyliadau'n uchel, mae rhediad a bwrlwm y gweithgareddau yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Ar y cyfan, mae cyflwyniadau i weithgareddau dysgu yn hybu brwdfrydedd ac awydd disgyblion i ymroi i'w gweithgareddau'n brydlon.

Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn. Yn yr arferion gorau, maent yn addasu'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion, gan gynnwys y disgyblion sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda i'r disgyblion, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt gwblhau eu gwaith yn annibynnol.

Caiff disgyblion ystod o brofiadau pwrpasol i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae staff y dosbarth derbyn yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion ddefnyddio deunydd naturiol i greu cloc i atgyfnerthu eu medrau darllen yr amser. Yn ogystal, mae'r disgyblion hynaf yn gwella ansawdd eu medrau llafar a darllen tra'n datblygu ymson am deimladau Branwen yn ystod ei chaethiwed yn Iwerddon. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn ddigon systematig a chyson ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu a dulliau perthnasol wrth ymateb i waith disgyblion. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu adborth llafar yn fedrus i herio ac gwerthuso ansawdd dysgu'r disgyblion, ac i flaenoriaethu unrhyw anghenion dysgu yn brydlon. Yn ogystal, mae staff yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn darparu cyfleoedd priodol iddynt ymateb i adborth a sylwadau ysgrifenedig athrawon. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw adborth

athrawon yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol i ddwysáu eu dealltwriaeth a gwella ansawdd eu gwaith.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu buddiol a diddorol lle defnyddir ardaloedd penodol yn bwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol i ysgogi a chynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud dewisiadau am beth a sut i ddysgu. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd ymarferol yn yr amgylchedd dysgu y tu mewn a thu allan. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio'r cyfarpar cadw'n heini a'r 'Llwyfan Llawen' allanol yn fwriadus i ddarparu profiadau dysgu ysgogol ac i ddatblygu medrau corfforol ac artistig y disgyblion yn effeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n hyrwyddo ymddygiad da a chwrteisi gan bob disgybl. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd, ynghyd â lles emosiynol disgyblion, yn allweddol i'w gwaith.

Mae'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol sydd rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd, a'r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac yn ymateb â sensitifrwydd i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn defnyddio ardaloedd penodol ac adnoddau pwrpasol i annog disgyblion i ymlacio ac ymdawelu cyn dechrau dysgu. Mae sesiynau ymyrraeth buddiol yn cefnogi lles emosiynol y disgyblion yn werthfawr. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u boddhad wrth ddysgu.

Mae gan yr ysgol systemau perthnasol i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae gan y cydlynydd ADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion lles ac addysgol disgyblion. O ganlyniad i gynllunio'r ddarpariaeth yn fedrus, mae disgyblion yn cael cefnogaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Mae staff yn gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol i greu cynlluniau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag ADY. Caiff y cymorth hwn, ynghyd â chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni, effaith gadarnhaol ar eu lles a'u cynnydd. Maent yn darparu cymorth arbenigol i rieni drwy sesiynau buddiol er mwyn eu cynghori ar agweddau o ddatblygiad plant a medrau bywyd. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas glòs rhwng yr ysgol a'r cartref ac yn cael effaith gadarnhaol ar y cydweithio a'r cyswllt er budd y teulu a'r plentyn.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy'n cynnwys clybiau chwaraeon allgyrsiol. Mae'r meysydd chwarae eang yn caniatáu i staff drefnu a darparu ystod o weithgareddau awyr agored sy'n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion at amrywiaeth o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ymarfer corff diddorol fel y defnydd o'r gampfa allanol a'r wal ddringo. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol. Mae gwaith y cynghorau disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ysgol gyfan. Er enghraifft, mae'r 'Capteiniaid Cymraeg' yn trefnu gweithgareddau i hyrwyddo y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau arwain y disgyblion ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi barn am eu dysgu drwy gynllunio ar gyfer eu themâu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trefnu gŵyl 'Morfa Hafanaidd' ar gaeau'r ysgol sydd yn eu cefnogi i ddysgu'n llwyddiannus am yrfaoedd a byd gwaith.

Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae'r staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymreig. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau mynegiannol ac arddel diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg gyfoes ac yn efelychu gwaith awduron ac artistiaid Cymreig yn fwriadus. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol a hunanhyder disgyblion yn dda, ac yn cyfrannu at feithrin parch a balchder disgyblion at eu cynefin yn llwyddiannus.

Mae'r trefniadau addoli ar y cyd yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i gefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Cynhelir y sesiynau hyn yn gyson a darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt, er enghraifft wrth ganu amrywiaeth o emynau a chaneuon cyfoes. Mae hawliau plant yn rhan gyson o wasanaethau'r ysgol. Yn ogystal, mae staff yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau, fel dathliadau Ramadan ac Eid.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd i wella presenoldeb disgyblion. Mae'r staff yn deall eu rolau'n dda wrth gadw disgyblion yn ddiogel a chynnal ethos cynhwysol yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, daeth yr arolygwyr â mater yn ymwneud â diogelwch safle'r ysgol i sylw arweinwyr yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gosod lles a dysgu disgyblion wrth wraidd ei weledigaeth. Mae'n canolbwyntio ar osod yr ysgol yng nghanol ei chymuned ac yn sicrhau bod llais disgyblion wrth galon y weledigaeth feddylgar hon. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi ei ymrwymiad ac mae staff yn gweithredu'n gydwybodol ar ddisgwyliadau arweinwyr.

Mae'r pennaeth yn annog staff i fodelu ymddygiadau a gwerthoedd cyson a chadarn. Maent wedi'u seilio'n uniongyrchol ar ethos gofalgar, sy'n anelu at fod o fudd i gymuned yr ysgol a bywydau'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae'n cymell disgyblion i fanteisio ar y profiadau difyr sydd ar gael iddynt ac i chwarae rhan bwrpasol ym mhenderfyniadau allweddol yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch gynhwysol a gofalgar yn treiddio trwy'r ysgol i gymell disgyblion i fwynhau eu dysgu.

Mae arweinwyr yn creu awyrgylch gefnogol ymysg yr holl staff a'r disgyblion. O ganlyniad, mae staff a'r disgyblion yn ymfalchïo yn arwyddair yr ysgol: 'Ymdrech a

Lwydda’, ac yn gweithredu’n ddiwyd ar ddatblygu meddylfryd cadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae eu cymhellion cadarnhaol yn creu ethos o gydweithio llwyddiannus, sy’n cael effaith gadarn ar agweddau’r disgyblion at ddysgu, fel trwy ddefnyddio’r ‘Den Distaw’ a’r ‘Ogof Ddarllen’ yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau’n dda ac mae’r pennaeth yn dwyn staff i gyfrif yn synhwyrol am ansawdd ac effaith eu gwaith. Mae prosesau’r arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn bwrpasol ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth fuddiol a dibynadwy. Mae’r systemau trwyadl yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion a gwerthuso cynnydd a datblygiad y disgyblion yn gelfydd. Mae hyn yn cynnwys mynd i’r afael â gwella medrau rhifedd disgyblion trwy weithgareddau ymarferol. Yn ogystal, mae arweinwyr yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid eraill yn dda i lywio eu harferion. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau rhieni ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau’n ddeallus, fel cyfathrebu’n well trwy ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwerthusiadau ac adolygiadau rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn creu darlun clir i arweinwyr o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w gwella. Mae'r cyswllt rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gadarn. Mae arweinwyr yn defnyddio eu canfyddiadau’n effeithiol ac yn gosod targedau dilys i wella arferion yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu’r ysgol gyda’r holl staff yn fanwl, sy’n cynnwys gwiriadau rheolaidd ar ddiogelwch cyfarpar allanol.

Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol. Maent yn adeiladu ar y perthnasoedd cryf sy’n bodoli â rhieni ac maent yn cydweithio’n gyson i wella ansawdd yr amgylchedd ddysgu, fel ar y ‘Diwrnodau Sadwrn Mwdlyd’. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yfed yn iach, ac yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu bocsys cinio.

Mae arweinwyr a staff yn gwneud y defnydd gorau o dir yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio’r cyfarpar anturus yn effeithiol i feistroli a datblygu eu medrau corfforol fel dringo a chydbwyso. Mae’r ddarpariaeth allanol ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn effeithiol. Mae hyn yn cyfoethogi eu cyfleoedd i ddatblygu eu medrau annibynnol trwy ystod eang o brofiadau dysgu.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn cadarnhaol yn creu gwelliannau bwriadus ar draws yr ysgol. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o weithgareddau'r ysgol trwy deithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion ochr yn ochr â'r athrawon. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn cydweithio ag ef a'r staff yn synhwyrol gan gwestiynu effaith eu gwaith mewn modd synhwyrol. Mae'r pennaeth yn eu cynghori'n ddibynadwy ac yn onest ar sut i wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i herio disgyblion i wella’u medrau gwyddonol a datblygu medrau darllen disgyblion i ymestyn eu dealltwriaeth o wahanol destunau ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, fel buddsoddiadau mewn cyfarpar digidol ac adnoddau allanol fel y ‘Cwt Cyfri’. Mae arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn dda i gefnogi ymweliadau preswyl ac i weithredu ymyraethau penodol ar draws yr ysgol gan staff, sy’n darparu cymorth buddiol i ddisgyblion wella’r cynnydd yn eu dysgu.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu effeithiol. Mae’r cyfleoedd hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol ac yn cyfateb i’w hanghenion unigol. Mae’r rhain yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau gwella’r ysgol ac yn cael effaith dda ar ddatblygu medrau disgyblion fel eu lles emosiynol. Mae’r ysgol yn rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion lleol sy’n darparu cyfleoedd buddiol i athrawon gymharu a rhannu eu profiadau â staff addysgu eraill. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cefnogi gallu’r ysgol i wella yn llwyddiannus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2024